

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams, M.R Wilkinson and M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley a Dr. I.J. Johnson.

C112 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â chael ei recordio dros y rhyngwyd ac y byddai'r recordiad yn cael ei archifo i'w wyllo yn y dyfodol.

Gofynnodd a fyddai pob cyfranogwr mor garedig â throi eu botwm 'mud' ymlaen pan na fyddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir neu sain ar draws pan fyddai eraill yn siarad, a phetai rhywun am siarad, am godi ei l/llaw (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r nodwedd 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau y byddai unrhyw drafodaeth yn cael ei godi ar lafar ac nid trwy'r nodwedd 'sgwrsio' er mwyn y recordio. Byddai modd defnyddio'r nodwedd 'sgwrsio' i amlygu unrhyw broblemau technegol a/neu i dynnu sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

C113 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

C114 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C115 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU IAITH CYMRU 2021-22 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 12 Hydref, 2022.

No.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y sylwadau ynghylch astudiaethau achos arfaethedig am adroddiadau'r dyfodol a fyddai'n arbennig o fuddiol wrth gymryd agwedd fwy ansoddol yn hytrach na safon ticio bocsys. Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor Craffu wedi tynnu sylw at y ffaith fod y Cyngor yn rhedeg fformatiau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg yn hytrach nag un ddwyieithog. Yr oedd y Pwyllgor Craffu felly wedi argymhell diwygio'r adroddiad blynyddol i adlewyrchu hynny.

Wedi ystyried y cyfeirio, yna

PENDERFYNWYD - Diwygio cyfeiriadau at gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021 - 2022 i adlewyrchu'r ffaith, lle bo hynny'n berthnasol, fod cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor (e.e., Twitter) yn cael eu rhedeg dan fformatiau gwahanol i'r Gymraeg a'r Saesneg yn hytrach nag un dwyieithog.

Rheswm dros y penderfyniad

Cadw mewn cof gynnwys y cyfeiriad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

C116 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG 2020-21 (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 12 Hydref, 2022.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor Craffu wedi gofyn i'r Cabinet ystyried datblygu cysylltiadau pellach a mwy o gyfleoedd i rannu gwybodaeth rhwng rolau'r Pencampwyr, Pwyllgorau Craffu, a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Wedi ystyried y cyfeirio, yna

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg am 2021-22 a'r cynnydd yr oedd partneriaid yn wneud i weithredu'r blaenoriaethau a osodir allan yn y Cynllun Iles.
- (2) Nodi'r ffordd arfaethedig ymlaen i ddatblygu Cynllun Iles newydd y BGC am 2023-28.
- (3) Derbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ynghylch datblygu cysylltiadau pellach a mwy o gyfleoedd i rannu gwybodaeth rhwng rolau'r Pencampwyr, Pwyllgorau Craffu, a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1-3) Cadw mewn cof gynnwys y cyfeiriad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C117 ADRODDIAD HUNANASESU BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNOL
CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd y cyfeiriad o'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar 24 Hydref, 2022.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y drafodaeth yn y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ynghylch lefel yr ymatebion unigol a dderbyniwyd, ond yr oedd yn werth egluro mai ymgynghoriadau penodol oedd y rhain nad oedd yn cynnwys y trafodaethau a ddigwyddodd yn y Pwyllgorau Craffu na'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio. Yr oedd yn werth cydnabod hefyd y gallai miloedd o bobl fod wedi edrych ar y ddogfen, ond fod lefel yr ymwneud ffisegol yn aml yn eithaf isel.

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo newidiadau i Dudalen 9 drafft terfynol yr Adroddiad Hunanasesu am 2021-22 ynghylch yr adran dan y teitl – Gwella ein Seilwaith Economaidd. Fel gwybodaeth atodol, cyflwynwyd geiriad diwygiedig am yr adran hon i'r Cabinet ystyried. Cytunodd y Cabinet i ddiwygio'r adran, gan gymeradwyo cyfeirio'r Adroddiad Hunanasesu at y Cyngor Llawn.

Wedi ystyried y cyfeirio, yna

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.
- (2) Cymeradwyo'r diwygiad (a ddangosir yn y ddogfen wybodaeth atodol) i'r adran dan y teitl – Gwella ein Seilwaith Economaidd , yn dechrau ar dudalen 9 adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg 2021-22.
- (3) Cyfeirio Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg 2021-22 terfynol at y Cyngor Llawn (9 Tachwedd, 2022) i'w gymeradwyo, gyda chais i dderbyn y diwygiad i'r adran dan y teitl – Gwella ein Seilwaith Economaidd (a ddangosir yn y ddogfen wybodaeth atodol) a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 3 Tachwedd, 2022), ac i'r diwygiad gael ei ymgorffori cyn cyhoeddi.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cadw mewn cof sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.
- (2) Yn dilyn ystyriaeth o'r adran ddiwygiedig dan y teitl Gwella ein Seilwaith Economaidd.
- (3) Gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo Hunanasesiad Blynyddol Terfynol Bro Morgannwg 2021-22.

C118 GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR, 27 MEDI, 2022

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Cyd-Wasanaethau Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2022 fel y gwelwyd hwy ar yr agenda.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Ymwneud Cymunedol, Cydraddoldeb a Chyd-Wasanaethau, oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 27 Medi 2022, at adroddiad gan Archwilio Cymru yng nghyswllt y cyfrifon ariannol am 2021/22 i'r Cyd-wasanaeth, gan ddweud nad oedd materion o bwys i adrodd amdanynt.

Derbyniodd y Cydbwyllgor hefyd adroddiad diweddararu chwarterol, a amlygodd y bu rhai erlyniadau llwyddiannus am greulondeb i anifeiliaid, ond fod rhai problemau recriwtio staff.

Wedyn, PENDERFYNODD y Cabinet

I dderbyn cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Cyd-Wasanaethau Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2022.

Rheswm dros y penderfyniad

I nodi'r cofnodion.

C119 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1AF EBRILL I 30AIN MEDI, 2022 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, er mwyn rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd Rhaglen Gyfalaf 2022/23 am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi, 2022 ac i ofyn am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad am gynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi, 2022. Dangoswyd manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Yr oedd Atodiad 2 i'r adroddiad yn rhoi crynodeb o safle'r Rhaglen Gyfalaf gan y Gyfarwyddiaeth i'w chymeradwyo yn y Cyngor o 7 Mawrth, 2022 i 30 Medi, 2022, ac yn cynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad. Yr oedd yr adroddiad yn gosod allan unrhyw newidiadau a fynnwyd i'r Rhaglen Gyfalaf am 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod.

Yr oedd cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, a allai olygu y byddai angen ail-lunio neu ail-dendro cynlluniau, a byddai hyn yn arwain at oedi prosiectau. Yr oedd swyddogion prosiect hefyd yn crybwyll amseroedd arwain maith o ran cludo deunyddiau a phrinder sgiliau mewn rhai meysydd.

No.

Nododd yr adroddiad fod y rhaglen gyfredol a gymeradwywyd yn werth £95.105m ond ei bod yn bwysig nodi nad oedd hyn yn debyg o ddigwydd, a gofynnwyd am lithriad o £2.524m. Byddid yn parhau i gadw llygad barcud ar gynlluniau fel rhan o'r trefniadau monitro rheoliad gyda rheolwyr a noddwyr prosiectau. Byddid yn adrodd am lithriadau pellach mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Dywedodd yr Arweinydd fod gwall teipio yn yr adroddiad, gan nodi ei fod yn dweud yr argymhellwyd cais gan Gronfa Partneriaeth Adfywio y Barri i gario ymlaen £689k i Raglen Gyfalaf 2022/23; dylid dweud mai cais oedd i gario ymlaen £689k i Raglen Gyfalaf 2023/24.

Mae angen gwneud yr un newid i baragraff 2.12 o'r adroddiad, sydd hefyd yn cyfeirio at Gronfa Partneriaeth Adfywio y Barri.

Mater i'r Pwyllgor gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo,
PENDERFYNODD y Cabinet –

- (1) Nodi'r cynnydd a wnaed ar gyflwyno Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- (2) Nodi'r defnydd o Bwerau Dirprwyedig fel y'i gosodir allan yn yr adroddiad noted.
- (3) Nodi'r defnydd o Bwerau Brys fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (4) Cymeradwyo'r newidiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod:
 - Goleuadau Stryd ar hyd Lôn Frampton – Cynyddu cyllideb y cynllun hwn o £5k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, i'w gyllido gan gyfraniad o arian A106.
 - Pont Llyfrgell Dinas Powys– Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £2k i'w gyllido gan gyfraniad refeniw Amgylchedd a Thai.
 - Ardal Chwarae Cosmeston– Symud £13k o gynllun Ardal Chwarae Cosmeston i gynllun Ardal Chwarae Porthceri.
 - Gerddi'r Knap- prosiect dŵr a bioamrywiaeth - Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £6k, i'w gyllido gan gyfraniad o arian A106.
 - Ysgol Sant Curig – Adnewyddu goleuadau – Cario £56k ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
 - Adolygu newidiadau gynlluniau trwyddedau parcio - Cario 55k ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
 - Canolfan Hamdden Penarth– Gwydro Lefel uchel - Cario £1,546k ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
 - Cronfa Bartneriaeth Adfywio y Barri - Cario £689k ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
 - Cyfleusterau Chwaraeon Cymunedol Murchfield - Cario £178k ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Dweud wrth y Cabinet am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf.
- (2) Dweud wrth y Cabinet am y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig.
- (3) Dweud wrth y Cabinet am y defnydd o Bwerau brys.
- (4) Caniatáu i gynlluniau fwrw ymlaen yn y flwyddyn ariannol gyfredol a rhai dilynol.

C120 YMGYNGHORIAD TRETH TECACH (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad er mwyn hysbysu'r Cabinet a cheisio cymeradwyaeth i'r ymateb a wnaed i'r Ymgynghoriad.

Yr oedd Llywodraeth Cymru yn cynnal Ymgynghoriad dau-gam ar ddiwygio'r system Treth Cyngor yng Nghymru. Yr oedd Cam 1 yr Ymgynghoriad yn ceisio barn fras gyda chynigion manwl i ddilyn. Y materion allweddol oedd yr angen i ail-brisio eiddo, gan i'r ail-brisio diwethaf ddigwydd yn 2003 ac yr oedd nifer y bandiau yn y trefniadau presennol yn cael eu gweld fel rhai atchweliadol.

Yr oedd y Cyngor yn cefnogi'r angen i ddiwygio ac yn ymwneud â'r Ymgynghoriad. Yr oedd angen amlwg i symud tuag at ail-brisio mwy rheolaidd er mwyn cynnal hygredd y system, a chael bandiau ychwanegol i'w gwneud yn decach. Yr oedd y Cyngor yn gyffredinol yn fodlon gyd annifer o nodweddion eraill y system bresennol o ran gostyngiadau, disgowntiau a phremiymau, a'r Cynllun Gostwng Treth Cyngor cenedlaethol.

Mater i'r Pwyllgor gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo,

PENDERFYNODD y Cabinet - ystyried yr adroddiad a chadarnhau'r ymateb i'r Ymgynghoriad a osodir allan yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu'r Cabinet o'r ymateb i'r Ymgynghoriad a cheisio unrhyw sylwadau ychwanegol i fwydo i mewn i'r ymgynghoriad.

C121 CYNNIG I DROSGLWYDDO CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL YN YSGOL GYNRADD LLANDOCHAU I YSGOL Y DDRAIG (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg yr adroddiad, er mwyn rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniad yr ymgynghori statudol

No.

ar y cynnig i adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol y Ddraig.

Yr oedd Ysgol Gynradd Llandochau wedi bod yn lleoliad darpariaeth yr Awdurdod Lleol i ddisgyblion â rhwystrau dysgu iaith a Lleferydd ers 2002. Y ddarpariaeth oedd dosbarthiadau i ddisgyblion 4-11 oed gydag Anghenion Lleferydd, iaith a Chyfathrebu. Yr awdurdod lleol oedd yn cyflogi'r staff ac yr oedd yr ysgol yn derbyn cyllideb adnoddau seiliedig ar nifer y disgyblion fyddai'n dod i'r ddarpariaeth.

Yr oedd y disgyblion wedi eu cofrestru'n ddeuol gyda'u hysgolion arferol ac yn treulio 3 diwrnod yn y ganolfan adnoddau a 2 ddiwrnod yn eu hysgol arferol. Roedd y model hwn yn caniatáu i'r disgyblion ddysgu ac ymarfer sgiliau iaith a lleferydd penodol yn y ganolfan a'u hymarfer trwy'r wythnos yn eu hysgolion arferol.

Ysgol gymunedol cyfrwng-Saesneg yn Llanilltud Fawr yw Ysgol y Ddraig, sy'n derbyn plant 3-11 oed ar hyn o bryd. Neilltuwyd rhan o'r adeilad i'r CAA a'r bwriad oedd i'r CAA ddilyn yr un model a'r un a ddefnyddid yn Ysgol Gynradd Llandochau.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniodd y Cyngor 4 ymateb erbyn y dyddiad cau o 22 Medi 2022. Gofynnwyd i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy nodi a oeddent yn 'cefnogi' neu 'ddim yn cefnogi' neu 'heb fod â barn' am dair elfen unigol y cynigion. O'r 4 ymateb a dderbyniwyd, yr oeddent oll yn cefnogi'r cynnig. Yr oedd crynodeb o'r themâu a'r materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymarferiad ymgynghori wedi ei gynnwys yn adroddiad yr ymgynghoriad yn Atodiad B, a'i grynhoi yng nghorff yr adroddiad.

Wedi cwblhau'r cyfnod ymgynghori, roedd angen penderfyniad yn awr ynglŷn ag a ddylid bwrw ymlaen ymhellach â'r cynnig, gyda chyhoeddi'r cynigion am y newid wedi ei reoleiddio ar ffurf hysbysiad statudol.

Mater i'r Pwyllgor gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo,

PENDERFYNODD y Cabinet –

(1) I gytuno ar adroddiad yr ymgynghoriad (yn Atodiad A i'r adroddiad), yr adroddiad ar Ymateb i'r Ymgynghoriad (yn Atodiad B i'r adroddiad) ac atodiadau eraill a gynhwyswyd fel rhan o'r adroddiad, sef yr Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb a Chymunedol.

(2) I gytuno â'r cynigion i adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol y Ddraig be agreed.

(3) I gymeradwyo'r cynnig i adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol i Ysgol y Ddraig trwy gyhoeddi'r cynigion ar ffurf hysbysiad statudol.

No.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei ystyried gan y Cabinet wrth ddod i benderfyniad ynghylch cyhoeddi hysbysiad statudol am y cynigion.
- (2) Sicrhau y gall y Ganolfan Adnoddau Arbenigol barhau i redeg ym mro Morgannwg mewn amgylchedd addysg modern.
- (3) Bwrw ymlaen â'r cynigion yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ("y Cod").

C122 DYFARNU CONTRACT PEIRIANNEG YN ÔL Y GALW AR GYFER LLAFUR A GWAITH UNIONGYRCHOL 2022-2024 (WCA) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gymdogaeth a Gwasanaethau Adeiladu yr adroddiad, er mwyn cael cymeradwyaeth i ddyfarnu'r Contract Galw-ymaith am Lafur Uniongyrchol a Pheiriannau 2022-2024.

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y broses dendro sydd ei hangen ar gyfer Adran Dylunio ac Adeiladu Contract Galw-ymaith Llafur Uniongyrchol a Pheiriannau 2022 - 2024. Yr oedd Contract Galw-ymaith Llafur Uniongyrchol a Pheiriannau 2019/22 wedi rhedeg yn llwyddiannus dros y 3 blynedd diwethaf, ac estynnwyd y tymor am 6 mis hyd at Hydref 2022 (Cofnod Cabinet C878) er mwyn caniatáu amser i gaffael contract newydd am flynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24.

Yr oedd y contract yn gwneud darpariaeth am adnoddau llafur addas ar ffurf gangiau adeiladau o 2 neu 3 person i weithio ar brosiectau oedd yn cael eu cyllido gan Gyfalaf. Y nod oedd rhoi gwerth ac effeithiolrwydd trwy ddefnyddio adnoddau llafur allanol i gryfhau darpariaeth fewnol y Cyngor.

Ail-dendrwyd y contract trwy borthol GwerthwchI Gymru ar 13 Ebrill, 2022 gyda'r tendrau'n cael eu dychwelyd ar 13 May, 2022 ac yna, cynhaliwyd ymarferiad gwerthuso manwl. Yr oedd manylion am hyn yn yr adroddiad Rhan II yn nes ymlaen ar yr agenda. Y bwriad oedd penodi 3 Chontractwr, yn y drefn oedd fwyaf ariannol manteisiol i'r Cyngor.

Y bwriad oedd penodi'r tri chontractwr i'r Contract Galw-ymaith i ddechrau am gyfnod o 24 mis; fodd bynnag, yr oedd amodau hefyd yn cael eu cynnwys am estyniad o 12 mis trwy gytundeb â'r contractwyr perthnasol. Byddai dyfarnu gwasanaethau dan y contract yn cael ei gyllido o gynlluniau a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru, cyllid Adran106 a gwahanol gyllidebau mewnol a/neu allanol.

Mater i'r Pwyllgor gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo,

No.

PENDERFYNODD y Cabinet –

Nodi'r cynnwys yr adroddiad a'i ystyried yng nghyswllt yr adroddiad Rhan II yn nes ymlaen ar yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

Caniatáu ystyried yr adroddiadau Rhannau I a II gyda'i gilydd.

C123 YMGYNGHORIAD AR GYNIGION AR GYFER DEDDFWRIAETH SYLFAENOL MEWN PERTHYNAS Â GOFAL CYMDEITHASOL PLANT, GOFAL IECHYD PARHAUS, ADRODD GORFODOL A RHEOLEIDDIO AC AROLYGU (GCI) (CRAFFU – BYW YN IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –

Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cymeradwyo'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am newidiadau i brif ddeddfwriaeth ynghylch gofal cymdeithasol i blant, gofal cymdeithasol parhaus, adrodd a rheoleiddio ac arolygu gorfodol.

Yr oedd yr ymgynghoriad yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- cynigion deddfwriaethol i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal;
- cynigion i alluogi mynediad at Daliadau Uniongyrchol i oedolion sy'n gymwys am Ofal Iechyd Parhaus gan y GIG;
- dyletswyddau sy'n bodoli eisoes i adrodd am blant ac oedolion mewn perygl yng Nghymru, gan ofyn a ddylid ehangu'r dyletswyddau hyn; a
- meysydd yn y drefn bresennol o reoleiddio darparwyr gwasanaeth, unigolion cyfrifol, a'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan geisio barn am ddiwygiadau posib

Gwnaeth yr Aelodau Cabinet sylwadau am lefel y manylion a roddwyd yn ymateb y Cyngor, gan ddweud ei fod yn gynhwysfawr. Cytunodd y Cabinet felly i gefnogi'r ymatebion oedd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Mater i'r Pwyllgor gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo,

PENDERFYNODD y Cabinet –

(1) Ystyried a chymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad a atodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad i gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

(2) Cymeradwyo'r defnydd o baragraff 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn penderfyniadau brys) parthed Penderfyniad (1).

No.

(3) Cyfeirio'r ymateb i'r ymgynghoriad at y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol i'w ystyried

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau yr ystyrir yr ymateb gan y Cabinet, a'i gadarnhau'n ffurfiol os yw hynny'n briodol.

(2) Sicrhau y cyflwynir yr ymateb ar neu cyn y terfyn amser o 5 Tachwedd, 2022.

(3) Gofalu bod gan Aelodau gyfle i ystyried dogfennau'r ymgynghoriad a'r ymateb, gan gyfeirio unrhyw sylwadau ychwanegol yn ôl at y Cabinet i'w hystyried ymhellach.

C124 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

C125 DYFARNU CONTRACT PEIRIANNEG YN ÔL Y GALW AR GYFER LLAFUR A GWAITH UNIONGYRCHOL 2022-2024 (WCA) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12A, 13 A 14) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) - .

Pwrpas yr adroddiad oedd cael caniatâd i ddyfarnu'r Contract Galw-ymaith am Lafur Uniongyrchol a Pheiriannau 2022-2024.

Yr oedd Contract Galw-ymaith Lafur Uniongyrchol a Pheiriannau 2019/22 wedi rhedeg yn llwyddiannus dros y 3 blynedd diwethaf, ac estynnwyd y tymor am 6 mis hyd at Hydref 2022 (Cofnod Cabinet C878) er mwyn caniatáu amser i gaffael contract newydd am flynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24. Yr oedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y broses dendro sydd ei hangen ar gyfer Adran Dylunio ac Adeiladu Contract Galw-ymaith Lafur Uniongyrchol a Pheiriannau 2022 - 2024, oedd yn cynnwys amodau ar gyfer ymestyn am 12 mis pellach trwy gytundeb â'r contractwyr perthnasol.

Yr oedd y contract yn gwneud darpariaeth am adnoddau llafur addas ar ffurf gangiau adeiladau o 2 neu 3 person i weithio ar brosiectau oedd yn cael eu cyllido gan Gyfalaf a gwaith angenrheidiol arall ar briffyrdd. Y nod oedd rhoi gwerth ac effeithiolrwydd trwy ddefnyddio adnoddau llafur allanol i gryfhau darpariaeth fewnol y Cyngor.

No.

Ail-dendrwyd y contract trwy borthol GwerthwchI Gymru ar 13 Ebrill, 2022 gyda'r tendrau'n cael eu dychwelyd ar 13 Mai, 2022 ac yna, cynhaliwyd ymarferiad gwerthuso manwl , fel y gwelir yn Atodiadau A, B ac C i'r adroddiad.

Y bwriad oedd penodi 3 Chontractwr, yn y drefn oedd fwyaf ariannol manteisiol i'r Cyngor, gyda'r gwaith yn cael ei ddyrannu i gwrdd â gofynion rhaglen waith yr Adran Dylunio ac Adeiladu. Bwriadwyd i benodi contractwyr i'r Contract Galw-ymaith i ddechrau am gyfnod o 24 mis yn unol â'r contract gyda dewis i ymestyn y contract am 12 mis pellach..

Byddai dyfarnu gwasanaethau dan y Contract yn cael ei gyllido o gynlluniau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, gwaith a nodwyd trwy gyllid Adran106, a gwahanol gyllideb fewnol a/neu allanol a gymeradwywyd ar gyfer cynlluniau gwella/cynnal a chadw Priffyrdd yn flynyddol. Byddai'r Contract(au) yn cael ei g/weinyddu yn Adran Beirianeg Gwasanaethau Cymdogaeth a Chludiant.

Mater i'r Pwyllgor gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo,

PENDERFYNODD y Cabinet –

- (1) I gymeradwyo dyfarnu Contract Galw-ymaith Llafur Uniongyrchol a Pheiriannau 2022 - 2024, i ddarparu llafur uniongyrchol ar gyfer cynlluniau Priffyrdd yn y dyfodol fel y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad.
- (2) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i ddrafftio a rhoi ar waith y contract i ddyfarnu Contract Galw-ymaith Llafur Uniongyrchol a Pheiriannau 2022 - 2024.
- (3) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gymdogaeth a Gwasanaethau Adeiladu, i ymestyn Contract Galw-ymaith Llafur Uniongyrchol a Pheiriannau 2022 - 2024 wedi'r 2 flynedd gyntaf, am 12 mis ymhellach yn unol â thelerau'r contract, yn amodol ar gytuno gyda'r contractwyr perthnasol, petai hynny'n economaidd fanteisiol ar y pryd hwnnw.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor.
- (2) Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol ar gael ar gyfer y Contract.
- (3) Sicrhau parhad busnes a chyflwyno prosiectau adeiladu cyfredol sy'n cael eu cyllido gan gyfalaf.